



Ar Osod

Hen Gwt y Ceidwaid

Parc Thompson, 49 Heol Romilly,
Caerdydd, CF5 1FH

264 sq ft (24.52 sq m)

029 2081 1581


www.emanuel-jones.co.uk

- Lleoliad mewn parc
- Seddi allanol
- Caniatâd cynllunio A3

Lleoliad

Lleolir yr eiddo yng ngorllewin Caerdydd, tua 2 filltir o ganol y ddinas. Gellir ei gyrraedd ar hyd Heol Romilly. Mae'r heol hon yn cynnig mynediad i Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, llwybr rhydweliol sy'n cysylltu'r ardal leol â chanol y ddinas a thu hwnt. Mae'r parc hefyd yn cael ei wasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus gyda nifer o lwybrau bysiau lleol.

Mae'r eiddo yn eistedd o fewn Parc Thompson. Mae'r parc yn un o'r hynaf yng Nghaerdydd ac mae'n cynnig gardd addurniadol gyda seddi, llwybrau cerdded a ffynnon ddŵr.



Disgrifiad

Mae'r eiddo ei hun yn cynnwys hen gwt ceidwaid unllawr sydd wedi'i drawsnewid i gynnig adeilad masnachol a ddefnyddiwyd yn fwyaf diweddar fel siop goffi. Mae'n cynnig cownter ac ardal eistedd fewnol fach a tholed sydd â mynediad ar wahân.

Ceir hefyd ardal batio / decin bach sy'n cynnig cyfle i roi seddi allanol ychwanegol

Adeilad

Mae'r eiddo wedi'i fesur ar sail arwynebedd mewnol net gyda'r mesuriadau canlynol:

Disgrifiad	Arwynebedd troedfedd sgwâr	Arwynebedd metr sgwâr
Siop	264 sq ft	24.52 sq m

Defnydd

Rydym yn deall bod yr eiddo ar hyn o bryd â budd defnydd cynllunio A3 fel siop goffi. Gellir ystyried defnyddiau amgen, yn amodol ar gynllunio.

Yn amodol ar gontact ac argaeledd: Mae Emanuel Jones drostynt eu hunain ac ar ran gwerthwyr/prydleswyr yr eiddo hwn y maent yn asiantau iddo yn nodi'r canlynol: Mae'r manylion wedi'u gosod fel amlinelliad cyffredinol er arweiniad yn unig i ddarpar brynwyr neu brydleswyr, ac nid ydynt yn, nac yn rhan o, gynnig contract. Rhoddir pob disgrifiad, maint, cyfeiriad at gyflwr a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnydd a meddiannu, a manylion eraill, heb gyfrifoldeb ac ni ddylai unrhyw bartion â diddordeb ddibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychioliadau o ffaith, ond rhaid iddynt eu bodloni eu hunain drwy archwiliad neu fel arall ynglŷn â chywirdeb pob un ohonynt. Ni fydd unrhyw gyfeiriad at unrhyw wasanaethau, gosodiadau neu ffitiadau gyfystyr â chynrychioli (oni nodir yn wahanol) eu cyflwr neu eu haddasrwydd ar gyfer unrhyw swyddogaeth arfaethedig. Dylai darpar brynwyr neu brydleswyr fodloni eu hunain ynghylch addasrwydd eitemau o'r fath ar gyfer eu gofynion. Nid oes gan unrhyw unigolyn a gyfflogir gan Emanuel Jones ganiatâd i wneud na rhoi unrhyw sylwadau neu warant o gwbl o ran yr eiddo hwn.

Prydles

Mae'r eiddo ar gael ar ffurf prydles atgyweirio ac yswirio lawn newydd am gyfnod o flynyddoedd i'w gytuno.

Rhent

Mae'r eiddo ar gael ar rent gyda dyfynbris o £10,000 y flwyddyn.

Ardrethi Busnes

Rydym yn deall bod yr eiddo felly'n gymwys ar gyfer rhyddhad 100% ar ardrethi busnes bach.

Dylai partion â diddordeb ddibynnu ar eu hymholiadau eu hunain gyda'r awdurdod lleol.

TYSTYSGRIF PERFFORMIAD YNNI

Rydym yn deallt nad oes angen Tystysgrif Ynni ar yr eiddo hwn

TAW

Nid yw'r eiddo wedi cael ei nodi ar gyfer TAW.

Costau Cyfreithiol

Parti llwyddiannus i gyfrannu £1,000 at gostau.

Ymweld

Dim ond drwy apwyntiad drwy'r unig asiant, Emanuel Jones:-

Cyswllt: Carlo Piazza / Rhys Williams

E-bost: carlo@emanuel-jones.co.uk
rhys@emanuel-jones.co.uk

Cysylltwch â Ni:

029 2081 1581